

Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol sy'n dwyn y teitl Paratoi ar gyfer Brexit: Adroddiad dilynol ar barodrwydd Porthladdoedd Cymru

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod:

Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi manylion ei chynllun wrth gefn ar gyfer rheoli traffig a thagfeydd a all effeithio ar borthladdoedd gyrru ar/oddi ar longau yng Nghymru os bydd angen unrhyw wiriadau newydd neu os bydd achosion newydd o oedi ar ôl 29 Mawrth 2019, ynghyd â manylion unrhyw asesiad y mae wedi'i wneud o ran y trefniadau cyllido ar gyfer unrhyw isadeiledd y bydd ei angen.

Ymateb: Derbyn

Rydym wedi cydnabod ers tro yr amharu posibl a allai effeithio ar borthladdoedd fferi gyrru ar/oddi ar longau yng Nghymru, ac mae porthladd Caergybi mewn perygl mawr. Rydym wedi ymgysylltu'n agos â gweithredwyr porthladdoedd, gweithredwyr cwmnïau fferi, awdurdodau lleol a sefydliadau Llywodraeth y DU i gael gwell dealltwriaeth o'r peryglon mewn porthladdoedd, a dylanwadu ar ddatblygu polisi mewn perthynas â threfniadau ffiniau, sy'n fater a gadwyd yn ôl.

Yn dilyn y trafodaethau hyn, mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu peidio â gwneud unrhyw wiriadau ychwanegol ar nwyddau sy'n dod drwy borthladdoedd gyrru ar/oddi ar longau o wledydd yr UE mewn senario dim bargaen, er bod hynny dros dro. Gallai hyn hwyluso rhywfaint o'r pwysau yn y tymor byr, ond rydym yn ymwybodol iawn o'r angen am ddatrysiaid mwy cadarn a hirdymor.

Yr hyn sy'n anhysbys ar hyn o bryd yw sut y bydd trefniadau porthladdoedd Iwerddon yn effeithio ar ofynion ar gyfer pentyrru a darparu manau aros i drafnidiaeth ffyrdd yr ochr yma i Fôr Iwerddon, yn enwedig ar yr A55. Mae'r [Cynllun Gweithredu wrth Gefn](#) ar gyfer dim bargaen a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd yn ddiweddar yn nodi'n glir y bydd holl ddeddfwriaeth berthnasol yr UE ar nwyddau sy'n cael eu mewnforio a nwyddau sy'n cael eu hallforio yn berthnasol o'r dyddiad ymadael (gan gynnwys tollau a threthi a rheolaethau, megis gwiriadau iechydol a ffytoiechydol).

Cyhoeddodd Llywodraeth Iwerddon hefyd ei [Chynllun Gweithredu wrth Gefn](#) ym mis Rhagfyr, sy'n cadarnhau bod trefniadau'n cael eu gwneud i wella seilwaith mewn porthladdoedd yn Nulyn a Rosslare, gan gynnwys corlannau archwilio ychwanegol, parcio, swyddi arolygu ar y ffin a gofod swyddfa.

Fodd bynnag, nid oes sicrwydd y bydd y cynlluniau yn cael eu cyflawni cyn y diwrnod ymadael. Fel yr awdurdod priffyrdd arweiniol, rydym yn edrych ar ystod o opsiynau ar gyfer rheoli amharu ar draffig ym mhorthladd Caergybi a'r cylch a allai arwain at oedi gyda phrosesu yn Nulyn. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r porthladd, y gweithredwyr fferi, gwasanaethau brys, Cyngor Ynys Môn a'r fforwm gwytnwch lleol i ddatblygu'r trefniadau ymhellach.

Ni fyddai'n briodol cyhoeddi opsiynau ar gyfer rheoli traffig yn ymwneud â Chaergybi ar hyn o bryd o ystyried y sensitifrwydd masnachol posibl.

Mewn perthynas â Doc Penfro ac Abergwaun, mae'r gwaith dadansoddi hyd yn hyn yn dangos y gellid cadw a rheoli cerbydau sy'n wynebu oedi o fewn libart y porthladdoedd ac na fyddai unrhyw gynnydd sylweddol mewn tagfeydd ar ffyrdd cyhoeddus. Felly ni fyddai

angen seilwaith ychwanegol. Fodd bynnag, mae'r rhagdybiaethau sy'n sail i'r dadansoddiad ar fin y gylllell ac yn cael eu hadolygu'n gyson er mwyn ymateb yn gyflym os bydd angen wrth roi mesurau ychwanegol wrth gefn ar waith.

Gan adlewyrchu'r ffaith bod y priffyrdd sy'n arwain i'r porthladdoedd gyrru ar/oddi ar longau yn Sir Benfro ac oddi yno yn gymysgedd o ffyrdd lleol a chefnffyrdd, bydd yr awdurdod lleol yn gweithio gydag Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru i greu cynllun wrth gefn ar gyfer rheoli traffig yn yr ardal. Mae Cyngor Sir Penfro yn gweithio'n agos â'r porthladdoedd, gweithredwyr y cwmnïau fferi, yr heddlu lleol a Heddlu'r Gororau, yn ogystal â swyddogion Llywodraeth Cymru. Pe bai'n angenrheidiol darparu cyfleusterau aros y tu allan i'r porthladd, mae safleoedd posibl wedi'u nodi ochr yn ochr â'r llwybrau mynediad.

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod:

Llywodraeth Cymru yn trafod â chwmnïau o Gymru sy'n masnachu'n rhyngwladol (yn enwedig masnach â gweddill y byd) pa gymorth y gallent fod ei angen wrth newid trefniant tollau yn y dyfodol. Yn dilyn y trafodaethau hyn, dylid rhoi ystyriaeth i ddyrannu adnoddau o Gronfa Pontio Brexit at y diben hwn, a dylai Llywodraeth Cymru roi adborth inni ynghylch y canlyniadau.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio'n rhagweithiol gyda chwmnïau sy'n ymwneud â masnach ryngwladol i'w helpu i baratoi ar gyfer trefniadau masnachu yn y dyfodol. Mae llawer iawn o ansicrwydd o hyd ynghylch y trefniadau hyn a bydd ein cymorth yn parhau i fod yn ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion busnesau unigol.

Mae'r Porth Brexit eisoes wedi'i sefydlu i roi gwybodaeth a chyngor i gwmnïau ar fasnach ryngwladol. Mae hyn yn cynnwys gweithdrefnau tollau "Gweddill y Byd"; dosbarthu nwyddau (codau tariff); tarddiad nwyddau ac amgylchedd rheoleiddio.

Ar 24 Hydref cyhoeddais fod cais £7.5 miliwn ar gyfer Gwydnwch Busnes i'r Gronfa Bontio Ewropeaidd wedi cael ei gymeradwyo. Mae'r gweithgareddau a gefnogir yn y cynnig hwn yn cynnwys gwybodaeth, offer ac adnoddau gwell ar-lein i fusnesau sy'n masnachu'n rhyngwladol; cymorth wedi'i deilwra er mwyn i fusnesau asesu a mynd i'r afael â risgiau a chyfleoedd; arian grant tuag at y gost o dalu am heriau sy'n gysylltiedig â Brexit.

Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod:

Llywodraeth Cymru, yn ei hymateb i'n hadroddiad, yn amlinellu ei safbwyntiau ynghylch y cynigion ar gyfer yr ateb wrth gefn mewn perthynas â Gogledd Iwerddon, a sut y bydd yr ateb wrth gefn hwnnw yn effeithio ar weithrediadau ym mhorthladdoedd Cymru.

Ymateb: Derbyn

Ym mis Tachwedd 2018, rhyddhaodd y Prif Weinidog blaenorol, Carwyn Jones AC, [Ddatganiad Ysgrifenedig](#) sy'n darparu ymateb Llywodraeth Cymru i'r Cytundeb Ymadael a'r Cytundeb Gwleidyddol arfaethedig, gan gynnwys 'ateb wrth gefn' Gogledd Iwerddon

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau'r Cytundeb Dydd Gwener y Groglith yng Ngogledd Iwerddon ac yn hyn o beth yn deall pam mae'r UE yn mynnu cael trefniadau wrth gefn cadarn. Fodd bynnag, byddai'r Brexit yr ydym yn ei gefnogi yn ein Papur Gwyn,

Diogelu Dyfodol Cymru, yn sicrhau na fyddai angen yr ateb wrth gefn byth ac na fyddai angen unrhyw wahaniaeth rhwng Gogledd Iwerddon a gweddill y DU o ran tollau neu'r amgylchedd rheoleiddiol.

O dan delerau'r Protocol, byddai cyfres o ddarpariaethau yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau na fydd ffin galed yn cael ei chreu ar ynys Iwerddon. Mae'r rhain yn cynnwys creu tiriogaeth tollau yn y DU a'r UE; a chadarnhad y bydd y DU mewn perthynas â Gogledd Iwerddon yn parhau i ddilyn cyfres gyfyngedig o reolau sy'n gysylltiedig â Marchnad Sengl yr UE (megis deddfwriaeth ar nwyddau, rheolau iechydol ar gyfer rheolaethau milfeddygol ("rheolau SPS"), rheolau ar gynhyrchu/marchnata amaethyddol, TAW a thollau cartref mewn perthynas â nwyddau, a rheolau cymorth gwladwriaethol).

Mae'r UE a'r DU wedi cytuno i gynnal unrhyw wiriadau angenrheidiol ar symud nwyddau o'r DU i Ogledd Iwerddon yn y ffordd leiaf ymwithiol bosibl. Fodd bynnag, mae angen gwell dealltwriaeth o effeithiau hyn yn ymarferol ar symud nwyddau er mwyn deall y goblygiadau i weithrediadau porthladdoedd Cymru.

Mae'r UE ei hun wedi cadarnhau nad oes dim yn y Protocol sy'n atal mynediad dirwystri'r farchnad ar gyfer cynhyrchion Gogledd Iwerddon yng ngweddill y DU; ac nid oes dim yn y protocol sy'n atal cynnyrch sy'n tarddu o Ogledd Iwerddon rhag cael ei ystyried yn nwyddau'r DU pan gaiff ei roi ar y farchnad yng ngweddill y DU.

Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod:

Llywodraeth Cymru yn gwella ei dull cyfathrebu cyffredinol â phorthladdoedd, a rhanddeiliaid sy'n gysylltiedig â phorthladdoedd, megis sefydliadau cludo nwyddau, cwmnïau teithio, a'r sector twristiaeth i roi rhagor o sicrwydd iddynt ynghylch y paratodau a'r gwaith cynllunio ar gyfer 29 Mawrth 2019.

Ymateb: Derbyng

Mae rhanddeiliaid yn ymgysylltu'n uniongyrchol ac yn rheolaidd â mi drwy fy Ngweithgor Ymadael â'r UE, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r porthladdoedd a'r sectorau cludo nwyddau.

Rydym hefyd yn ymgysylltu'n agos â rhanddeiliaid drwy'r *Grŵp Llywio Cynllunio Ffiniau Porthladdoedd a Meysydd Awyr Cymru*. Mae'r ymgysylltiad hwn wedi bod yn rhan allweddol o ddatblygu ein dealltwriaeth o risgiau lleol a chamau lliniaru rhesymol pe bai dim bargaen.

Pwrpas y grŵp yw darparu un fforwm cydlynol i alluogi ymgysylltu ar faterion gweithredol rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a gweithredwyr porthladdoedd a meysydd awyr Cymru mewn perthynas â pharatodau ffiniau ar gyfer ymadael â'r UE, gan ganolbwyntio ar symud nwyddau masnachol ar draws ffiniau a chynllunio ar gyfer trefniadau'r Diwrnod Cyntaf pe bai dim bargaen.

Caiff y grŵp llywio ei gadeirio gan Grŵp Cyflawni Ffiniau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ac, ynghyd â swyddogion Llywodraeth Cymru; mae ei aelodau'n cynnwys swyddogion o ystod o adrannau ac asiantaethau Llywodraeth y DU, yn ogystal â chynrychiolwyr o'r prif borthladdoedd yng Nghymru, maes awyr Caerdydd, gweithredwyr cwmnïau fferi, cymdeithasau cludo nwyddau a llywodraeth leol.

Mae'r grŵp llywio hefyd wedi cynnal ymweliadau safle â phorthladdoedd unigol i drafod cynlluniau manwl ar gyfer eu hamgylchiadau penodol. Mae'r ffocws penodol wedi bod ar borthladd Caergybi, o ystyried ei bwysigrwydd strategol yn y DU fel porthladd gyrru ar/oddi

ar longau. Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn hefyd yn cynnwys rheolwyr rheoli rhwydwaith ffyrdd ynghyd â chynrychiolwyr awdurdodau lleol a'r heddlu.

Mae swyddogion hefyd wedi ymgysylltu â Chymdeithas Cludo Nwyddau a Chludo Nwyddau ar Loriau y DU, yn enwedig o ran y meini prawf asesu ar gyfer dyfarnu trwyddedau trelars pe bai dim bargaen.

O safbwynt yr effeithiau ar dwristiaeth, mae Gweinidogion a swyddogion Croeso Cymru yn cwrdd yn rheolaidd â Chynghrair Twristiaeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill y sector i drafod yr holl faterion sy'n effeithio ar y sector gan gynnwys Brexit. Er enghraifft yn ystod Hydref 2018 gofynnwyd i'r diwydiant am effeithiau Brexit ledled Cymru mewn pum sioe deithiol i ymwelwyr ac mewn cyfarfodydd o'r pedwar Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol a chynhwyswyd cwestiwn yn ein harolygon Baromedr Twristiaeth yn ddiweddar.

Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod:

Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad inni ar y trafodaethau y mae'n eu cynnal ag adrannau cyfatebol yn Llywodraeth y DU ynghylch systemau TG newydd mewn perthynas â threfniadau tollau yn y dyfodol. Dylai'r diweddariad hwn gynnwys manylion ynghylch sut y mae anghenion porthladdoedd Cymru yn cael eu hystyried, a sut y diwellir yr anghenion hynny gan system TG yn y dyfodol. Hefyd, dylid cynnwys yr amserlen ddisgwyliedig ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn.

Ymateb: Derbyn

Mae trefniadau tollau - a'r systemau TG cysylltiedig - wedi'u cadw yn ôl ac felly'n gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU. I gydnabod eu pwysigrwydd i'r porthladdoedd a'r diwydiannau cludo nwyddau, mae'r systemau'n rhan o drafodaethau rheolaidd Grŵp Llywio Cynllunio Ffiniau Porthladdoedd a Meysydd Awyr (gweler argymhelliad 4). Caiff anghenion porthladdoedd Cymru o ran systemau TG eu bwydo i Lywodraeth y DU a'u hystyried mewn modd integredig drwy'r fforwm hwn ac mae'r porthladdoedd a Llywodraeth y DU yn cydweithredu ar y materion hyn. Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi dweud wrthym fod y newidiadau TG yn cael eu targedu i'w cwblhau a'u gweithredu erbyn y Diwrnod Cyntaf, ond mae trefniadau wrth gefn hefyd yn cael eu datblygu rhag ofn na ellir cyrraedd y targed hwn.

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod:

Llywodraeth Cymru yn cydweithio â'i rhanddeiliaid economaidd allweddol i sicrhau bod ganddynt y capasiti a'r adnoddau sydd eu hangen i ymgymryd â phroses Llywodraeth y DU ar gyfer ymgeisio am drwydded, gan roi adborth inni ar ei hymdrechion i'r perwyl hwnnw.

Ymateb: Derbyn

Mae'n hanfodol nad yw cludwyr nwyddau Cymru na busnesau Cymru sy'n dibynnu arnynt hwy a chlodwyr eraill y DU yn waeth eu byd o ganlyniad i newidiadau i'r system drwyddedu. Rydym wedi cysylltu â chynrychiolwyr o'r Gymdeithas Cludo Nwyddau ar Loriau a'r Gymdeithas Cludo Nwyddau yn uniongyrchol ac wedi gofyn iddynt roi gwybod inni a yw eu haelodau yng Nghymru wedi mynegi unrhyw bryderon ynghylch y cynlluniau hyn. Hyd yma ni chafwyd ymateb.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu'n uniongyrchol at Weinidog y DU sy'n gyfrifol am Ffyrdd, Jesse Norman AS, yn pwysleisio'r angen i sicrhau na fydd y dull gweithredu a fabwysiedir yn cael effaith niweidiol ar gludwyr nwyddau yng Nghymru.

Mae diweddariadau diweddar gan yr UE ar drefniadau dim bargaen yn nodi y bydd gweithredwyr y DU yn gallu cludo nwyddau yn yr UE dros dro (am naw mis) yn yr UE, cyn belled â bod y DU yn rhoi hawliau cyfatebol i weithredwyr cludo nwyddau ar loriâu yr UE. Er bod y ffaith bod y DU yn derbyn y dull hwn yn cynnig rhywfaint o gysur, mae'n ateb tymor byr a byddwn yn parhau i weithio i sicrhau na fydd system drwyddedu, pa bai ei hangen, yn cael effaith andwyol ar Gymru.

Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod:

Llywodraeth Cymru yn amlinellu yn ei hymateb a yw'n bwriadu cyflwyno rheoliadau amgylcheddol newydd ar ôl Brexit, a sut y byddai'r rhain yn gweithio ochr yn ochr â chynigion Llywodraeth y DU i greu "llyfr rheolau cyffredin" ar ôl Brexit.

Ymateb: Derbyn

Y flaenoriaeth ar hyn o bryd yw cyflawni'r rhaglen waith sylweddol sydd ei hangen i sicrhau y bydd llyfr statud gweithredol ar waith ar y diwrnod ymadael. Cyflawnir hyn drwy Offerynnau Statudol sy'n cwmpasu'r DU a Chymru er mwyn sicrhau y bydd deddfwriaeth gyfredol yr UE, gan gynnwys rheoliadau amgylcheddol cyfredol, yn parhau i allu gweithredu.

Fel Llywodraeth rydym wedi ymrwymo i gynnal a gwella safonau amgylcheddol ac mae ein gwaith gyda'n rhanddeiliaid wedi tynnu sylw at bwysigrwydd ein safonau rheoleiddio i'n henw da am gynhyrchion o ansawdd uchel.

Rydym yn cydweithio'n agos â Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill ar sut y bydd y pedair gweinyddiaeth yn gweithio gyda'i gilydd ar ôl y diwrnod ymadael i sicrhau, lle mae angen dull gweithredu cyson gan y DU, y gellir cyflawni hyn mewn modd sy'n parchu datganoli.